**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

5 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Cynhyrchion Bioladdol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol etc.) 2024 erbyn 5 Mawrth.

Derbyniais lythyr gan Is-iarll Younger o Leckie, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Waith a Phensiynau yn gofyn am ganiatâd i'r Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am ganiatâd wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban.

Gwneir y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a ddirprwyir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Erthygl 85 ac Erthygl 83A(2) o Reoliad Cynhyrchion Bioladdol Prydain Fawr (EU) Rhif 528/2012 (GB BPR) (addasiad i gynnydd gwyddonol a thechnegol).

Rhaid i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch awdurdodi cynhyrchion bioladdol sy'n gweithredu fel yr awdurdod cymwys ar ran Gweinidogion Cymru.
Mae'r HSE yn cynnig cyflwyno diweddariadau technegol i Atodiadau II a III o BPR GB a fydd yn galluogi:

- Gostyngiad mewn profion ar anifeiliaid
- Alinio â'r canllawiau cyfredol, a phrofion wedi'u dilysu y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad
- a Datblygiad Economaidd (OECD)
- HSE i sicrhau fod cynnydd gwyddonol yn cael ei fonitro a bod datblygiadau'n cael eu hadlewyrchu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni fydd y gostyngiad arfaethedig mewn profion ar anifeiliaid yn lleihau ansawdd y profion neu ddiogelwch cynhyrchion, gan fod profion dibynadwy sydd heb gysylltiad ag anifeiliaid bellach ar gael i ddarparu gwybodaeth oedd yn y gorffennol ond ar gael drwy brofi gan ddefnyddio anifeiliaid byw. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a chaiff ei osod gerbron y Senedd ar 5ed Mawrth 2024. Y dyddiad cychwyn fydd 06 Ebrill 2024.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ond yn yr achos hwn, ystyriwyd ei bod yn briodol i hanfod y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru am fod y Rheoliadau yn dechnegol eu naws ac nad ydynt yn arwain at unrhyw newid o ran polisi. Felly nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid oes darpariaeth sy'n caniatáu imi ddeddfu ar wahân i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn aelodau craidd o'r Bwrdd Cyflawni Bioladdwyr (BDB) sy'n rhan o'r strwythurau llywodraethu ar gyfer y Fframwaith Cyffredin Cemegau a Phalladdwyr. Mae'r gwelliannau deddfwriaethol arfaethedig wedi eu trafod a'u cymeradwyo gan y BDB.

Nid oes gan y Rheoliadau hyn oblygiadau i'r Rhaglen Lywodraethu. Mae awdurdodi cynhyrchion bioladdol yn cefnogi llawer o nodau llesiant "Cymru iachach" a 'Cymru gydnerth' ynghyd ag effeithiau cysylltiedig ar y nod o "Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang" lle mae cynhyrchion sy'n niweidiol i fywyd dynol neu annynol yn cael eu rheoleiddio'n iawn. Rwyf hefyd wedi fy nghalonogi o weld y defnydd arfaethedig o dechnoleg ar gyfer profi cynhyrchion bioladdol sy'n lleihau'r angen am brofion anifeiliaid.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA).

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**